

Swyddog Myfyrwyr wedi Ymddieithrio

Y Rôl:

Etholir Swyddog y Myfyrwyr wedi Ymddieithrio i gynrychioli buddiannau myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio. Mae'n rôl wirfoddol, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Bydd pob swyddog etholedig yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni eu rôl, felly nid oes angen profiad blaenorol.

Bydd y Swyddog Myfyrwyr wedi Ymddieithrio yn:

- Cynrychioli pob myfyriwr sydd wedi ymddieithrio
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli
- Lobïo dros newidiadau ar draws y brifysgol
- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd
- Gwasanaethu fel llywydd Rhwydwaith y Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio
- Ymgysylltu â phrosesau democrataidd Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr a chysylltu'n rheolaidd â staff allweddol

Sgiliau y byddwch yn eu datblygu:	Cyfleoedd a manteision:
• Arweinyddiaeth • Cyfathrebu • Sgiliau trefnu • Sgiliau rhyngpersonol a gwrando gweithredol • Lobïo • Gwaith tîm • Profiad o gynllunio prosiectau • Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd	• Hyfforddiant mewnol gan yr UM • Cefnogaeth a mentora gan staff Undeb y Myfyrwyr • Rhywbeth gwych i'w roi ar eich CV • Cwrdd â phobl newydd • Dod yn fwy cysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr • Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr

Cymhwysedd:

I fod yn gymwys i sefyll am y rôl hon, rhaid i chi fod yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yn fyfyrwr ym



Mhrifysgol Caerdydd am hyd y rôl (o 1af Gorffennaf 2026 i 1af Gorffennaf 2027).

Mae yna hefyd feini prawf cymhwysedd ychwanegol ar gyfer y rôl hon. I fod yn gymwys i sefyll am y cyfnod hwn, rhaid i chi fod yn fyfyrwr sy'n hunaniaethu fel rhywun sydd wedi ymddieithrio. Diffinnir myfyrwr sydd wedi ymddieithrio fel myfyrwr sydd heb gyswllt â'i rieni a/neu deulu. Mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun

Disgwyliadau:

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos digon o ymgysylltiad â'r rôl. Gofynnir i Swyddogion Ymgyrch wirio eu negeseuon e-bost yn rheolaidd a chyfathrebu â ni a bod yn frwdfrydig tuag at y rôl. Yn ogystal, mae set o ofynion y disgwylir i Swyddogion Ymgyrch eu cwblhau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ond efallai heb fod yn gyfyngedig i:

- Mynychu hyfforddiant gydag Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu Senedd y Myfyrwyr
- Darparu diweddariadau atebolrwydd yn Senedd y Myfyrwyr
- Darparu diweddariadau atebolrwydd ychwanegol drwy gydol y flwyddyn
- Mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol
- Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol y Swyddogion
- Cynnal etholiadau rhwydwaith
- Cynnal ymgyrch unigol

Sut i enwebu:

Enwebwch eich hun yma.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar elections@cardiff.ac.uk.



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd